

## OWEN, HUGH JOHN (1880 - 1961), cyfreithiwr, awdur a hanesydd lleol

**Enw:** Hugh John Owen  
**Dyddiad geni:** 1880  
**Dyddiad marw:** 1961  
**Rhiant:** Elizabeth Owen (née Hughes)  
**Rhiant:** John Owen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr, awdur a hanesydd lleol  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Arwyn Lloyd Hughes

Ganwyd 5 Chwefror 1880 ym Mhwlheli, Caernarfon, yn fab i John Owen, master mariner, a'i wraig Elizabeth (ganwyd Hughes). Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg y Bala. Ar ôl cwblhau ei dymor erthyglau gyda chwmni Robyns-Owen, Pwllheli, a'i dderbyn yn gyfreithiwr yn 1903, ymunodd ag adran gyfreithiol cyngor sir Llundain. Gwasanaethodd gartref ac yng ngwlad Groeg gyda'r R.A.O.C. yn Rhyfel Byd I ac enillodd reng Capten. Penodwyd ef yn glerc yr heddwch ac yn glerc cyntaf llawn-amser i gyngor sir Meirionnydd yn 1920, swyddi a ddaliodd gydag urddas hyd nes iddo ymddeol ym mis Mawrth 1954. Gwnaed ef yn ddirprwy raglaw y sir yn 1949.

Un o'i brif ddiddordebau oedd hanes lleol a llwyddai'n ddieithriad i drosglwyddo'i frwdfrydedd i eraill. Ef a fu'n bennaf gyfrifol am sefydlu Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd yn 1939. Gwnaed ef yn is-lywydd y Gymdeithas a bu'n gadeirydd ymroddedig i'w chyngor o'i chychwyniad hyd ei farwolaeth. Bu'n flaenllaw hefyd dros sefydlu swyddfa cofysgrifau Meirionnydd yn 1952 a thros benodi archifydd sirol. Cynrychiolodd gyngor sir Meirionnydd ar lys llywodraethwyr L.L.G.C. o 1934 hyd ei farwolaeth. Yr oedd yn ymchwiliwr dyfal a gweithiai'n ddi-baid ar bob math o gofysgrifau lleol, ac yn neilltuol ar rai llys sesiwn chwarter Meirionnydd. Cyhoeddodd bum cyfrol: *The Merioneth Volunteers and local militia during the Napoleonic Wars* (1934); *Echoes of old Merioneth* (1944); *Sir Love's adventures in Spain* (1945); *The treasures of the Mawddach* (1950) a *From Merioneth to Botany Bay* (1952). Cyfrannodd rhwng 1951 ac 1961 nifer o erthyglau i *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*. Diogelir ei bapurau, yn briodol iawn, yn y swyddfa gofysgrifau yn Nolgellau. Ni bu'n briod. Bu farw ym Mhwlheli 29 Mehefin 1961 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Sant Hywyn, Aberdaron.

### Awdur

Arwyn Lloyd Hughes

### Ffynonellau

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, 4, 1-2

Edgar Stephens, *The Clerks of the Counties 1360-1960* (Warwick 1961) (1961)

*Who's who in Wales* (1926)

*The Times*, 1 Gorffennaf 1961

*The Liverpool Daily Post*, 1 Gorffennaf 1961

*The Cambrian News and Merionethshire Standard*, 7 Gorffennaf 1961

*Y Dydd*, 7, 14 Gorffennaf 1961

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821145](https://www.wikidata.org/wiki/Q20821145)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

